| | |
|---|---|
| **Rhif yr Hysbysiad Preifatrwydd:** | 18/1207 |
| **Dyddiad y Crëwyd:** | Medi 2018 |
| **Dyddiad y Cyhoeddwyd:** | 01/02/21 |
| **Rhif y Fersiwn:** | 2.00 |

---

| | |
|---|---|
| **Man Gwasanaeth:** | Ar draws y cyngor |
| **Manylion Cyswllt:** | 01443 815588, gwybodaeth@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Y Fenter Twyll Genedlaethol |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Er mwyn diogelu arian cyhoeddus, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth bersonol ar gyfer cydweddu â ffynonellau data gan gyrff cyhoeddus eraill i ganfod twyll. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn rhoi mwy o wybodaeth. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

### Categorïau o ddata personol

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn golygu cymharu setiau o ddata electronig a gedwir gan un sefydliad yn erbyn data a gedwir gan yr un sefydliad neu sefydliad arall i weld faint y maent yn cyfateb, er mwyn nodi gweithgareddau twyllodrus ac anghyfreithlon neu gamgymeriadau.

Fel arfer, mae'r data a gyflwynir gan y Cyngor at y diben hwn, a'r wybodaeth a dderbynnir o ganlyniad i baru data, yn wybodaeth bersonol, yn bennaf cofnodion ariannol.

Yn dibynnu ar natur yr ymglymiad ariannol y mae sefydliadau'r llywodraeth neu gyrff cyhoeddus eraill wedi'i gael gyda'r unigolyn, gallai gynnwys manylion eraill megis cyfansoddiad y teulu, faint o bobl sy'n byw mewn eiddo, neu arwydd bod cyflwr iechyd yn bodoli yn effeithio ar fudd-daliadau ariannol.

### Ffynhonnell y data personol

Gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Fenter Twyll Genedlaethol

Bydd y Fenter Twyll Genedlaethol yn cymharu'n ddiogel y ffynonellau gwybodaeth bersonol canlynol a gedwir gan y Cyngor:

- Treth y Cyngor, gan gynnwys gostyngiadau ac eithriadau'r cynllun gostyngiadau ac eithriadau
- Hawlwyr budd-dal tai

- Tai, gan gynnwys tenantiaethau, rhestrau aros a cheisiadau hawl i brynu arfaethedig
- Trwyddedau, gan gynnwys trwyddedau masnachwr , gyrrwr tacsi a thrwyddedau personol ar gyfer cyflenwi alcohol
- Data'r gyflogres ar gyfer gweithwyr y Cyngor
- Cofnodion cyllideb personol ar gyfer cleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol,
- Cofnodion ariannol ar gyfer preswylwyr mewn cartrefi gofal â chymorth preifat
- Parcio i breswylwyr, bathodynnau glas a chardiau teithio i bobl dros 60 oed
- Trafodion taliadau credydwyr masnach a gwybodaeth meistr-ffeil
- Cofrestru etholiadol
- Grantiau Cymorth Busnes COVID-19

Mae'r uchod yn rhestr o ddata sy'n cael ei rhannu ar hyn o bryd. Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru ehangu'r rhestr hon ar unrhyw adeg, yn ôl ei ddisgresiwn.

Os hoffech gael gwybodaeth fanylach, gweler yr Hysbysiadau Preifatrwydd ar gyfer pob math o ddata ar wefan y Cyngor ar https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Privacy-notices?lang=cy-gb neu cysylltwch â'r Cyngor ar diogeldata@caerffili.gov.uk 01443 863086.

Gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Fenter Twyll Genedlaethol

Bydd canlyniadau'r paru data ar gael i'r Cyngor drwy borth gwe diogel. Mae'r canlyniadau'n adroddiad o barau y dylid ymchwilio iddynt, felly bydd y canlyniadau'n cynnwys gwybodaeth gan sefydliadau eraill y llywodraeth neu gyrff a ariennir yn gyhoeddus sydd wedi arwain at baru â chofnodion y Cyngor.

Nod yr ymchwiliad dilynol yw canfod achosion o dwyll, gordaliadau neu dandaliadau a gwallau eraill. Efallai na fydd parau sy'n codi bob amser yn cael eu hymchwilio; byddai'n dibynnu ar yr amgylchiadau. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yma: https://www.gov.uk/government/collections/national-fraud-initiative

Os hoffech gael copïau o'ch gwybodaeth bersonol eich hun a gyflwynwyd i'r Fenter Twyll Genedlaethol, neu a dderbyniwyd gan y Fenter Twyll Genedlaethol, efallai y bydd gofyn i chi wneud cais am y wybodaeth hon fel Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Er mwyn diogelu arian cyhoeddus, mae'r Cyngor o dan ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth bersonol mewn fformat electronig i Swyddfa Cabinet y DU ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni'r paru o nifer o ffynonellau data'r sector cyhoeddus er mwyn canfod hawliadau a thaliadau twyllodrus neu wallau.

Lle canfyddir pâr, mae'n bosibl y bydd yn dangos bod anghysondeb sy'n gofyn am ymchwiliad pellach, ond ni wneir tybiaeth a oes twyll, gwall neu esboniad arall hyd nes y cynhelir ymchwiliad.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi gweithredu ers 1996, ac mae'n cydymffurfio â Chôd Ymarfer statudol caeth y gellir ei ddarganfod yma: https://www.gov.uk/government/publications/code-of-data-matching-practice-for-national-fraud-initiative

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Fenter Twyll Genedlaethol

Mae rhwymedigaeth statudol i brosesu'ch gwybodaeth o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

> Erthygl 6(1)(c) mae angen prosesu ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod:.

> Erthygl 9(g) mae angen prosesu am resymau o fudd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-wladwriaeth a fydd yn gymesur â'r nod a ddilynir, parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data a darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau testun y data.
>
> Y gyfraith Aelod-wladwriaeth briodol yw Deddf Diogelu Data 2018, ac mae'r amodau priodol yn 'dibenion statudol ac ati a dibenion y llywodraeth' [Atodlen 1 (6)] a 'gofynion rheoliadol sy'n ymwneud â gweithredoedd anghyfreithlon ac anonestrwydd ac ati' [Atodlen 1 (12)].

<u>Gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Fenter Twyll Genedlaethol</u>

Mae rhwymedigaeth statudol i brosesu'ch gwybodaeth o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

> Erthygl 6(1)(c) mae angen prosesu ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi;

Mae deddfwriaeth diogelu data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig' a hefyd ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau a all gael eu derbyn gan y Fenter Twyll Genedlaethol neu a awgrymir o ganlyniad i baru data. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniadau hyn, rhaid nodi amodau ychwanegol o Erthygl 9 (ar gyfer data personol categori arbennig) ac erthygl 10 (ar gyfer euogfarnau troseddol a throseddau), fel yr amlinellir isod.

> Erthygl 9(g) mae angen prosesu am resymau o fudd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-wladwriaeth a fydd yn gymesur â'r nod a ddilynir, parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data a darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau testun y data.
>
> Erthygl 10 bydd prosesu data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau neu fesurau diogelwch cysylltiedig sy'n seiliedig ar Erthygl 6(1) ond yn cael ei wneud dan reolaeth awdurdod swyddogol neu pan fydd y brosesu wedi'i awdurdodi gan gyfraith yr Undeb neu Aelod-wladwriaeth sy'n darparu ar gyfer mesurau diogelu priodol ar gyfer y hawliau a rhyddid testunau'r data. Bydd unrhyw gofrestr gynhwysfawr o euogfarnau troseddol yn cael ei chadw dan reolaeth awdurdod swyddogol yn unig .

Yn achos Erthyglau 9(g) a 10, y gyfraith Aelod-wladwriaeth briodol yw Deddf Diogelu Data 2018, ac mae'r amodau priodol yn 'dibenion statudol ac ati a dibenion y llywodraeth' [Atodlen 1 (6)] a 'gofynion rheoliadol sy'n ymwneud â gweithredoedd anghyfreithlon ac anonestrwydd ac ati' [Atodlen 1 (12)].

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolwr Data a Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

**Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

At ddibenion casglu data'r Fenter Twyll Genedlaethol, bydd meysydd gwasanaeth amrywiol y Cyngor, a gefnogir gan adran TG ac o dan gyfarwyddyd Archwiliad Mewnol, yn casglu data personol yn y categorïau a restrir uchod a'i cyflwyno drwy borth gwe diogel i'r Fenter Twyll Genedlaethol, a weinyddir gan Swyddfa Cabinet y DU ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Os cyflwynir parau i'r Cyngor sydd angen ymchwiliad pellach arnynt, bydd Archwiliad Mewnol yn dyrannu caniatâd diogel i'r porth gwe ar-lein i swyddogion y Cyngor a enwebir i ddarllen y wybodaeth sydd ei hangen arnynt at ddibenion ymchwilio. Gall swyddogion perthnasol y Cyngor ddiweddaru'r porth yn unol â hynny, fel bod unrhyw sefydliad arall sy'n meddu ar ddata sydd wedi'u paru â data'r Cyngor yn gallu gweld cynnydd a chanlyniad yr ymchwiliad.

**Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Os dychwelir parau o'r Fenter Twyll Genedlaethol y mae angen eu harchwilio, efallai y bydd angen i Archwilio Mewnol rannu gwybodaeth gyda swyddogion perthnasol at ddibenion yr ymchwiliad, yn dibynnu ar ba gategori o ddata personol a arweiniodd at y paru data.

**Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Rhennir y categorïau o ddata personol a restrir uchod yn ddiogel gyda Swyddfa Cabinet y DU i ymgymryd â pharu data'r Fenter Twyll Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Am ragor o wybodaeth am sut y bydd y Fenter Twyll Genedlaethol yn prosesu gwybodaeth bersonol, gweler hysbysiad preifatrwydd y Fenter Twyll Genedlaethol yma: https://www.gov.uk/government/publications/fair-processing-national-fraud-initiative

Os yw paru'n gofyn am ymchwiliad pellach, bydd y Cyngor yn gweithio gydag unrhyw sefydliad arall sy'n meddu ar ddata sydd wedi'u paru â data'r Cyngor i ymchwilio i dwyll, camgymeriad neu gamddatganiad posibl.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth diogelu data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

**Manylion y cyfnod cadw**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn ôl gofynion statudol neu arferion gorau. Amlinellir cyfnodau cadw ar gyfer y wybodaeth a restrir uchod yn yr hysbysiadau preifatrwydd penodol ar gyfer pob math o wybodaeth.

Ni chaiff gwybodaeth a lwythir i borthol y Fenter Twyll Genedlaethol ei chadw fel copi 'lleol', gan y gall partneriaid y Cyngor a'r Fenter Twyll Genedlaethol barhau i gael mynediad ati drwy'r porthol am ddwy flynedd ac am gyfnod byr wedyn os nad yw ymchwiliad wedi'i gwblhau eto.

Os bydd unrhyw ganlyniadau paru'n gofyn am ymchwiliad pellach, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn darparu manylion drwy'r porthol gwe ddiogel. Cofnodir yr ymchwiliad drwy'r porthol gwe, ac mae'r canlyniadau'n cael eu llwytho i fyny i'r porthol gwe, felly ni chaiff gwybodaeth 'leol' ei chadw. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gadw gwybodaeth ar borthol gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol yma: https://www.gov.uk/government/publications/fair-processing-national-fraud-initiative

## Gwneud penderfyniadau / proffilio awtomataidd

Mae'r broses paru data yn awtomatig ac fe'i disgrifir yn hysbysiad preifatrwydd y Fenter Twyll Genedlaethol yma: https://www.gov.uk/government/publications/fair-processing-national-fraud-initiative

Bydd unrhyw ganlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn arwain at ymchwiliad gan swyddogion cyn gwneud unrhyw benderfyniadau/camau pellach, felly nid oes gwneud penderfyniad neu broffilio yn awtomatig ar y cam hwn. Efallai na fydd parau sy'n codi bob amser yn cael eu hymchwilio; byddai'n dibynnu ar yr amgylchiadau.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrychau'r data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun - mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu

- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwynion**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cymharu setiau o ddata personol electronig yn ddiogel a ddelir gan un sefydliad yn erbyn data a gedwir gan yr un sefydliad neu sefydliad arall yn y sector cyhoeddus i weld faint y maent yn cyfateb, ac i nodi camgymeriadau neu hawliadau a thaliadau a allai fod yn dwyllodrus.

Lle canfyddir pâr, mae'n bosibl y bydd yn dangos bod anghysondeb sy'n gofyn am ymchwiliad pellach, ond ni wneir tybiaeth a oes twyll, gwall neu esboniad arall hyd nes y cynhelir ymchwiliad.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gymryd rhan er mwyn diogelu arian cyhoeddus, a bydd yn darparu rhai categorïau penodol o wybodaeth bersonol i'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae Swyddfa Cabinet y DU yn gweinyddu'r Fenter Twyll Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi gweithredu ers 1996, ac mae'n cydymffurfio â Chôd Ymarfer statudol caeth y gellir ei ddarganfod yma: https://www.gov.uk/government/publications/code-of-data-matching-practice-for-national-fraud-initiative

Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth y gellir ei darganfod ar http://www.audit.wales/cy/amdanom-ni/menter-twyll-genedlaethol

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}